



PEIDIWCH Â METHU EIN DIGWYDDIADAU RHWYDWAITH – CLYBIAU HWB

Rydym yn gwybod o'n Harolwg Clwb Cenedlaethol fod llawer o blant mewn clybiau ag anghenion lles a chymorth. Ymunwch â ni am syniadau ar ofalu am les, meddylgarwch a chyfoethogi taith chwaraus pob plentyn wrth gydbwysu teimladau, emosiynau a deall gweithredoedd caredigrwydd a all effeithio ar bawb yn ddyddiol.

Mae ein siaradwr gwadd, Harriet Beth Carr yn Hyfforddwr Iechyd Ardystiedig, Ymarferydd Chwarae Therapiwtig cymwysedig a Therapydd Chwarae dan hyfforddiant gyda PTUK yn Sir Benfro.

O oedran ifanc roedd Harriet yn gwybod ei bod am weithio gyda phlant ac mae hi wastad wedi bod â diddordeb mewn dysgu mwy am sut y gall gefnogi plant gyda'u hiechyd a'u lles, ac mae hi'n gwneud hynny nawr trwy ymyriadau Chwarae Therapiwtig, ynghyd â'i busnes sydd ynghylch iechyd a lles plant, The Kind Nest. [The Kind Nest – Harriet Beth Carr](#)

Mae Harriet wedi treulio dros 10 mlynedd yn mireinio sgiliau penodol a osodwyd trwy ei MA mewn Chwarae Datblygiadol a Therapiwtig, gan hyfforddi i fod yn Therapydd Chwarae a chymwysterau hyfforddi iechyd, meddylgarwch a sgiliau cwnsela, gan ganiatáu iddi gefnogi plant sy'n ystyried dull cyfannol o ymdrin â lles. Rhyddhaodd ei llyfr cyntaf i blant sy'n canolbwyntio ar lesiant, The Mindful Walk, yn 2021 ac mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn defnyddio grym chwarae i helpu plant i weithio trwy emosiynau a dysgu sgiliau defnyddiol i wella eu hiechyd a'u lles.

Dysgwch sut y gallwch ddysgu a datblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau i gefnogi'r plant sy'n mynychu eich Clwb All-Ysgol. Mae Harriet yn ymuno â ni ar gyfer ein sesiwn a bydd ar gael i ateb unrhyw gwestiynau neu ymholiadau sydd gennych ynghylch lles plant.

ANSAWDD

CYNALIADWYEDD

LLYWODRAETHIAD

Chwefror



**Cefnogi Meddylgarwch
a Llesiant yn eich Clwb
Gofal Plant All-Ysgol**

05/02/2025 | 18:30-19:30

Bwciwch yma

